

ColegauCymru
CollegesWales

# BRIFF ADDYSG UWCH MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH: HERIAU A CHYFLEOEDD AM ADNEWYDDIAD MEWN CYFNODAU ANODD

Mai 2020

# CEFNDIR

Mae darpariaeth Addysg Uwch (AU) mewn Sefydliadau Addysg Bellach (AB)- y cyfeirir ati weithiau fel "AU mewn Colegau" neu fel arall fel "AU mewn AB" – wedi gweld twf cyson ers dechrau'r 1990au. Mae bellach wedi dod yn rhan bwysig o ddarpariaeth AB ers cyflwyniad trefniadau masnachfraint wedi'i alluogi trwy gydweithredu â sefydliadau Addysg Uwch. Mae nifer yr oedolion sy'n cyflawni cymwysterau sgiliau lefel uwch (Lefel 4 neu'n uwch) wedi gweld cynnydd cyson ers 2008. Y gyfran oedd â chymwysterau addysg uwch neu lefel gyfwerth oedd 38.8% yn 2019 o'i gymharu â 37.8% yn 2018[1]. Mae gwella sgiliau yn uchelgais benodol hirdymor Llywodraeth Cymru fel mesur i wella lles economaidd a chymdeithasol y wlad[2]. Yn sail i hyn mae sefydliadau AB Cymru wedi ymrwymo i ddarparu sgiliau lefel uwch cyson i ddysgwyr trwy ystod o fentrau. Mae isadeiledd cynyddol ar waith i ddarparu AU mewn AB trwy ystod o gymwysterau, yn ogystal â rhywfaint o symudiad diweddar tuag at brentisiaethau lefel gradd o fewn Dysgu Seiliedig ar Waith. Yn ogystal, mae llawer o sefydliadau AB wedi chwarae rhan fwy sylweddol wrth ddarparu graddau sylfaen a chyrsiau ardystiedig eraill, weithiau'n ddwyieithog trwy gydweithredu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Aethpwyd i'r afael â'r heriau ehangach i ddarpariaeth addysg uwch oherwydd dyled myfyrwyr a'r ddibyniaeth ar incwm tramor mewn man arall. Mae'r briff hwn yn nodi'r sylfaen gyfredol ar gyfer cynnal AU mewn AB ac yn tynnu sylw at adolygiadau presennol sy'n tynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd a oedd yn amlwg cyn y pandemig COVID19. Mae'r briff yma yn galw am adolygiadau i'r materion hynny yng ngoleuni effaith uniongyrchol a thymor hir y firws.

MAE'R TABL ISOD YN DANGOS FFIGYRAU AB MEWN AU AR GYFER POB COLEG YNG NGHYMRU YN 2019/2020

Tabl 1

| | Cofrestriad Llawn Amser | Cofrestriad Rhan Amser | Prentisiaethau Uwch | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Coleg Penybont | 255 | 459 | - | 714 |
| Coleg Cambria | 242 | 205 | 54 | 501 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 324 | 237 | 60 | 621 |
| Coleg y Cymoedd | 127 | 248 | 81 | 456 |
| Coleg Gwyr Abertawe | 180 | 140 | 60 | 380 |
| Coleg Gwent | 638 | 292 | - | 930 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 557 | 679 | 29 | 1265 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | 253 | 67 | - | 320 |
| Grŵp NPTC | 403 | 185 | - | 588 |
| Coleg Sir Benfro | 43 | 85 | 41 | 169 |
| Coleg Sir Gâr | 466 | 397 | 128 | 991 |
| | **3488** | **2994** | **453** | **6935** |

*Ffynhonnell: Gyflenwir gan golegau*

[1] https://llyw.cymru/lefel-y-cymwysterau-uchaf-ddelir-gan-oedolion-o-oed-gweithio-2019-html
[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/datganiad-polisi-ar-sgiliau.pdf

# BETH YW AU MEWN AB?

Mae darpariaeth AU mewn AB yn cychwyn ar Lefel 4 ac yn mynd i fyny i gymwysterau Lefel 6, gydag ychydig bach o ddarpariaeth Lefel 7 mewn rhai colegau. Mae gan ddysgwyr sydd eisoes wedi cyflawni cymhwyster Lefel 3 yn y coleg ac sy'n dymuno parhau â'u hastudiaethau, yr opsiwn o aros yn y coleg yn lle trosglwyddo i sefydliad AU, ac felly'n cynnig trosglwyddiad di-dor rhwng lefelau addysg.

Diagram 1[3]:

Mae'r diagram Fframwaith Credyd a Chymwysterau ar gyfer Cymru isod yn cynorthwyo i ddeall a chymharu cymwysterau yng Nghymru. Mae'n dangos bod addysg uwch yn cychwyn ar Lefel 4 ac y gellir ei ddysgu mewn sefydliadau AB ac AU ledled Cymru. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar fodel Ewropeaidd a fabwysiadwyd gan wledydd ar draws y byd[4].




Canfu adolygiad yn 2015 gan Lywodraeth Cymru y gall AU mewn AB gefnogi'r cynnig sgiliau AU lleol a rhanbarthol, ac y gall helpu i ddiwallu anghenion sectorau sgiliau penodol[5]. Canfu fod gallu sefydliadau AB i ddarparu cyrsiau canolradd yn leol ac mewn ffordd hyblyg, yn cyfrannu at ehangu mynediad i AU, ac yn ysbrydoli dysgwyr mewn sefydliadau AB i barhau â'u haddysg. Mae llawer o'r ddarpariaeth AU mewn AB yn alwedigaethol, sy'n golygu bod cysylltiadau agos â chyflogadwyedd, gyda cholegau'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr. Mae'r berthynas gryf hon yn golygu bod sefydliadau AB yn gallu cynnig cyrsiau pwrpasol sy'n diwallu anghenion y gymuned yn uniongyrchol.

Ym mis Gorffennaf 2019[6] rhoddodd cynrychiolwyr coleg dystiolaeth i sesiwn craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Craffu Ôl-ddeddfwriaethol Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Fe wnaethant nodi bod cyflwyno AU trwy AB yn arbennig o bwysig i sefydliadau AB oherwydd gall colegau ddatblygu ac ehangu cyfranogiad yr aelodau hynny o'r gymuned na fyddent fel arall yn astudio ar lefel AU. Mae colegau AB hefyd yn darparu mynediad lleol i AU gan fod gan y sefydliadau AB lawer o gampysau rhanbarthol gwasgaredig yng Nghymru, ac yn aml mewn ardaloedd o amddifadedd.

Yn dilyn craffu gan y sector, gan gynnwys tystiolaeth lafar gan ColegauCymru, ym mis Rhagfyr 2019[7] cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg adroddiad ar graffu ôl-ddeddfwriaethol Deddf Addysg Uwch (Cymru). Rhestrodd gyfres o bedwar ar bymtheg o argymhellion a thynnodd sylw hefyd at y sail y gellid craffu ar unrhyw ddeddfwriaethau arfaethedig i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Pe bai'r bil newydd arfaethedig yn cael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod y mae effeithiau COVID19 yn dal i gael eu teimlo, mae'n bwysig bod yr adroddiad a'i arsylwadau'n cael eu hystyried yn llawn. Dylid ystyried yng nghyd-destun yr heriau sydd yn gwynebu sefydliadau AU ac AB, heb angofio'r aflonyddwch a wynebir gan fyfyrwyr wrth iddynt geisio'r llwybr cywir ar gyfer eu taith ddysgu barhaus.

[3] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/credit-and-qualifications-framework-for-wales-learner-guide.pdf
[4] https://europass.cedefop.europa.eu/europass-support-centre/other-questions/what-european-qualification-framework-eqf
[5] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adolygiad-o-addysg-uwch-mewn-sefydliadau-addysg-bellach.pdf
[6] https://record.assembly.wales/Committee/5523
[7] https://busnes.senedd.cymru/documents/s96498/Adroddiad%20-%20Craffu%20ar%20l%20deddfu%20ar%20Ddeddf%20Addysg%20Uwch%20Cymru%202015%20-%204%20Rhagfyr%202019.pdf

## Darparu AU mewn AB

Yn 2004, cynhaliodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ymgynghoriad ar drefniadau posibl yn y dyfodol ar gyfer darparu AU mewn AB[8]. Argymhellodd yr ymgynghoriad y dylai unrhyw fentrau yn y dyfodol i ddatblygu AU mewn AB ganolbwyntio ar lwybr y fasnachfraint; yn enwedig ar adeiladu partneriaethau lleol. Yn dilyn hynny, mae'r mwyafrif o gyrsiau AU mewn AB yng Nghymru bellach yn cael eu hariannu'n bennaf trwy drefniadau masnachfraint. Mae colegau fel Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn rhan o strwythur grŵp sector deuol sy'n cynnwys colegau addysg bellach a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae trefniadau masnachfraint yn golygu bod gan y sefydliadau AU reolaeth dros nifer y myfyrwyr sy'n mynychu sefydliadau AB. Mae'r sefydliadau AU yn cadw cyfrifoldeb am niferoedd myfyrwyr, y cwricwlwm, ansawdd y ddarpariaeth a phrofiad y myfyriwr.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae CCAUC yn rhoi cyllid uniongyrchol i nifer fach o sefydliadau AB (er enghraifft Grŵp Llandrillo Menai a Grŵp NPTC) trwy'r broses ddynodi gymhleth. Mae'r sefydliadau AB hyn yn gyfrifol am reoli darpariaeth rhaglenni, nifer y myfyrwyr ac ansawdd y ddarpariaeth. Gyda'r trefniadau cyllido uniongyrchol hyn, mae disgwyl i golegau gael perthnasoedd cryf â'u prifysgol i ddarparu sicrwydd a chefnogaeth ansawdd. Mae'n ofynnol i'r colegau hyn hefyd ddarparu eu cynlluniau ffioedd a mynediad eu hunain.

Er mai rhyddfreinio a dynodi yw'r sylfaen gyfredol y darperir cyfran sylweddol o AU mewn darpariaeth AB, dylai'r argyfwng presennol a'r effaith debygol o COVID19 ar yr economi a chymdeithas ysgogi ystyried a yw polisi a osodwyd un mlynedd ar bymtheg yn ôl dal yn addas ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.

## Graddau sylfaen, cyrsiau ardystiedig a phrentisiaethau gradd

Mae AU wedi parhau i fod yn rhan bwysig o'r cynnig AB, yn enwedig wrth gyflwyno Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch a Graddau Sylfaen, sy'n cynnig cyfle i ddysgwyr gael profiad gwaith ymarferol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth fel rhan o'u rhaglen astudio.

Mae prentisiaethau uwch hefyd yn nodwedd gynyddol o'r cynnig AU mewn AB, gan adlewyrchu blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i ehangu sgiliau lefel uwch. Darperir prentisiaethau uwch mewn sefydliadau AB trwy gontractau dysgu seiliedig ar waith (DSW). Yn ôl adroddiad Estyn yn 2018 bu cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth uwch mewn DSW (o 2013- 2018)[9]. Mae colegau yng Nghymru yn gweithio gyda phrifysgolion i ddatblygu llwybrau dilyniant mwy effeithiol ar gyfer dysgwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan mai hon yw un o'r rhaglenni dysgu mwyaf poblogaidd yn barhaus.

Nid yn unig graddau yw cymwysterau AU mewn AB, ond hefyd cyrsiau ardystiedig ar lefelau 4 a 5. Mae'r rhain yn boblogaidd iawn gyda'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, lle nad yw cyflogwyr efallai'n ceisio cyflogi dysgwyr â graddau, ond mae ganddynt ddiddordeb yn y dysgwyr hynny sydd â phrofiad gwaith ymarferol ochr yn ochr â chymhwyster uwch. Wrth inni fynd i fyd ôl-COVID19, gallai'r sgiliau ymarferol hyn ynghyd â'r addysg academaidd fod yn amhrisiadwy mewn sectorau fel gofal, lle bu cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau.

Yn fwy diweddar, ymrwymodd Llywodraeth Cymru £20 miliwn dros dair blynedd i astudiaeth beilot prentisiaeth gradd yn ymwneud â TG/Cyfrifiaduron, Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch. Yn 2019/20, dyrannodd CCAUC 585 o leoliadau wedi'u hariannu[10]. Mae'r cyllid hyn wedi eu croesawu gan gyflogwyr wrth iddynt geisio sgiliau lefel uwch tra bod pobl ifanc yn edrych ar brentisiaethau fel dewis arall 'credadwy a chydnabyddedig' yn lle gradd israddedig draddodiadol.

Rydym yn rhagweld y bydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau yn cyhoeddi ei adolygiad i Brentisiaethau Gradd yn fuan ac rydym yn argymell craffu pellach ar y polisi hwn i sicrhau ei fod yn cyflawni ei nodau a'i amcanion datganedig.

---

[8] https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12906-r/cr-ld12906-r%20-e.pdf
[9] https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Higher%20apprenticeships%20in%20work-based%20learning%20-%20cy.pdf p.4
[10] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=27015&Opt=0

## Sefydliadau rheoledig

Trwy wneud cais am statws "sefydliad rheoledig" a chael ei ddyfarniad, mae darparwr yng Nghymru yn mynd i mewn i system reoleiddio Cymru. Daw darparwr yn sefydliad rheoledig trwy gyflwyno cais i CCAUC, gydag CCAUC wedyn yn cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad. Mae'r cynlluniau hyn yn datgloi lefelau uwch o gymorth ariannol i fyfyrwyr, wrth ymrwymo darparwyr i fuddsoddi cyfran o'r incwm ychwanegol hwnnw i ehangu gweithgaredd mynediad. Mae pob coleg yng Nghymru naill ai'n sefydliadau rheoledig neu'n darparu addysg ar ran sefydliad rheoledig[11]. Pan fydd darparwyr yn gwneud ceisiadau am gynlluniau ffioedd a mynediad, rhaid iddynt ddangos sut y byddant yn buddsoddi incwm yn strategol mewn gweithgareddau ac ymyriadau i gyflawni amcanion strategol y coleg, ac i annog cyfranogiad mewn addysg uwch gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Gall colegau yng Nghymru sy'n cwblhau adolygiad ansawdd porth llwyddiannus gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA)[12] gynnig a dyfarnu mwy o gyrsiau AU. Mae cymeradwyaeth ASA yn golygu y gall y colegau hynny gynnig a dyfarnu eu cyrsiau AU galwedigaethol eu hunain ar lefelau 4 a 5. Y bwriad yw y bydd y cyrsiau hyn yn fwy fforddiadwy i ddysgwyr, y byddant yn hyblyg i ddiwallu anghenion cymunedau lleol, ac y byddant yn rhoi staff y cyfle i ddysgu cyrsiau lefel uwch yn y coleg.

## Dyfodol AU mewn AB

Y ddwy her fawr sy'n gwynebu AU yn y dyfodol o ran darpariaeth AB yw effaith pandemig COVID19 a'r diwygiadau sydd ar ddod i'r sector ôl-16.

Bydd y Mesur Addysg Drydyddol ac Ymchwil arfaethedig yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fel rheolydd ar gyfer y sector AU ac AB[13]. Os caiff y bil ei basio, bydd yn creu cyfle i edrych ar sut mae'r sector AU mewn AB yn cael ei ariannu yn y dyfodol, a gallai gynnig mwy o hyblygrwydd i sefydliadau AB a'u pwerau dyfarnu graddau. Fodd bynnag, mae COVID19 wedi gwneud yr amserlen ar gyfer pasio'r darn cymhleth hwn o ddeddfwriaeth yn hynod o dynn, gyda Llywodraeth Cymru yn dewis blaenoriaethu biliau ar y Cwricwlwm Newydd a Llywodraeth Leol[14].

Bydd sefydliadau AB ledled Cymru yn wynebu heriau yn y dyfodol o ran eu darpariaeth AU. Gellir gweld effaith ar ffigurau cofrestru wrth i ddysgwyr ohirio eu dysgu o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, gallai colegau weld cofrestriadau ychwanegol o bosibl wrth i ddysgwyr benderfynu aros yn agosach at adref, gan wneud llai o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a chadw at reolau pellhau cymdeithasol posibl yn y dyfodol. Mewn cyfnod o ansicrwydd mawr, gall fod gan sefydliadau AB ran bwysicach fyth i'w chwarae wrth ddarparu AU.

## Casgliad

Mae darpariaeth ddysgu hyblyg ac ymatebol yn debygol o gynyddu wrth i unigolion ddewis o amrywiaeth o lwybrau tuag at sgiliau lefel uwch. Mae dyfodol darpariaeth AB ac AU yn ansicr ac yn cael eu heffeithio gan ddylanwadau byd-eang yn ogystal â rhai lleol. Yn ystod y cyfnod cythryblus hwn, a chyda newidiadau eisoes ar yr agenda, mae'n hanfodol bod anghenion penodol myfyrwyr sy'n dewis llwybr AB yn cael eu deall. Mae eu dewis yr un mor bwysig i'r rhai sy'n dewis y llwybr is-raddedig traddodiadol ac ni ddylid eu hanwybyddu.

[11] https://www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/he_wales_act_2015/regulated_institutions_cy.aspx
[12] https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/guidance/gateway-quality-review-wales-handbookb901a0be03dc611ba4caff1e0043ed24.pdf?sfvrsn=d731ff81_8
[13] https://llyw.cymru/comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil?_ga=2.4352692.644924154.1588692666-544668597.1574855019
[14] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-dull-y-llywodraeth-o-ymdrin-deddfwriaeth-yn-dilyn-yr-achosion-o-covid-19?_ga=2.96053787.644924154.1588692666-544668597.1574855019

ColegauCymru
CollegesWales

Ffôn
02920 522 500

E-bost
helo@colegaucymru.ac.uk

ColegauCymru
U7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB

Gwefan
www.colegau.cymru